

## CYNGOR CAERDYDD

### DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

#### DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

#### YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF

**HYSBYSIR DRWY HYN**, yn unol ag Adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Caerdydd (sef "yr Awdurdod" o hyn ymlaen), ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol ym marn y Cyngor, yn cynnig newid Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2JL fel a ganlyn:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ar gyfer dysgwyr 11 -19 oed sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth

Cynigir gweithredu'r cynnig o Fedi 2023.

Byddai'r ganolfan newydd yn ychwanegol at y Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle bresennol ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

[Agenda'r Cabinet Ddydd Iau, 10 Mawrth, 2021, 2:00 pm: Cyngor Dinas Caerdydd \(modern.gov.co.uk\)](#)

Capasiti cyfredol yr ysgol yw 1,500 o leoedd gan gynnwys y chweched dosbarth. Nifer cyfredol y disgyblion yn yr ysgol yw 1146 (11-16) a 270 (y chweched dosbarth).

Does dim cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Rheolir derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol gan yr awdurdod lleol, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) fel y bo'n briodol.

Byddai derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol ar wahân i'r derbyniadau i'r brif ysgol a byddai'n ychwanegol at Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) yr ysgol.

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef erbyn 02 Mehefin 2022, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk)

Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a anfonir drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig y 6ed o Fai 2022

Llofnod: Davina Fiore  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraethiant  
a Swyddog Monitro Cyngor Caerdydd

### **NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Cymraeg yn Ystum Taf.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, cynigir sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr 11-19 oed yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth ochr yn ochr â'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol 30 lle ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth o fis Medi 2023.

Ni chynigir unrhyw newidiadau i Ganolfan Adnoddau Arbenigol yr ysgol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth.

Cynigir y byddai gofod newydd yn cael ei ddatblygu ar y safle i ddarparu cyfleusterau pwrpasol ar gyfer y ddwy ganolfan adnoddau.

Mae'r cynnig hwn yn rhan o ystod o gynigion ar gyfer cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu cymhleth a chyflwr sbectrwm awtistiaeth mewn nifer o ysgolion o fewn yr awdurdod lleol. Gellir gweld manylion y cynigion hyn a chopïau o'r hysbysiadau statudol ar y dudalen we yma: [Anghenion Dysgu Cymhleth/Darpariaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth \(caerdydd.gov.uk\)](http://Anghenion_Dysgu_Cymhleth/Darpariaeth_Cyflwr_Sbectrwm_Awtistiaeth(caerdydd.gov.uk))